Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 132 (Cy. 33)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 19 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018 sy'n gymwys i blanhigion penodol a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall neu yn y Swistir. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i fewnforiwr unrhyw blanhigion o'r fath hysbysu arolygydd awdurdodedig mewn ysgrifen am eu glaniad ddim hwyrach na phedwar diwrnod ar ôl dyddiad eu glaniad yng Nghymru. Mae'r diwygiad yn estyn y gofynion hyn i blanhigion *Olea europaea* L.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: cangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 132 (Cy.33)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Ionawr 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *30 Ionawr 2019* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mawrth 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** —(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 6 Mawrth 2019.

**Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018**

**2.** Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1967 p. 8; diwygiwyd adran 2 gan baragraff 8(2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Rhan 1 o'r tabl ym mharagraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2), O.S. 1990/2371 ac O.S.2011/1043. Diwygiwyd adran 3(1) gan baragraff 8(2)(a) a (b) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac O.S. 2011/1043. Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 2 a 3(1) yn cael eu rhoi i "competent authority" ("awdurdod cymwys") a ddiffinnir yn adran 1(2). Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae adran 1(2), fel y'i diwygiwyd, yn darparu mai'r awdurdod cymwys ar gyfer Cymru yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2018/1064 (Cy. 223).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Erthygl 19**

**3.** Yn erthygl 19(1), yn is-baragraffau (a) a (b), ar ôl "*Fraxinus* L.," mewnosoder "*Olea europaea* L.,".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
29 Ionawr 2019